

Ymateb i Argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2019-20

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i harfer presennol o gyhoeddi ei chyllideb ddrafft, ni waeth beth yw amseriad Cyllideb y DU

Ymateb: Derbyn

Fel y cadarnhawyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd yn y ddadl ar Gyllideb Ddrafft 2019-20 ar 4 Rhagfyr, rydym yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor mewn perthynas â phroses newydd y gyllideb. Fodd bynnag, wrth gytuno ar y protocol ar gyfer y Gyllideb y llynedd, cydnabu'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru y gallai fod rhai blynyddoedd, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, lle na fydd 'blwyddyn y gyllideb/blwyddyn ariannol' yn flwyddyn arferol. Er enghraifft, os bydd digwyddiad ariannol yn y DU, megis Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant neu Gyllideb Argyfwng.

Yn ei lythyr i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mehefin 2018, tynnodd cyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid sylw at yr effaith y byddai Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ar gyfer 2019 yn debygol o'i chael ar amseriad Cyllideb 2020-21. Bydd angen inni fyfyrion ar hyn ymhellach pan fydd gennym eglurder ynghylch amseriad Adolygiad o Wariant 2019.

Rydym hefyd yn nodi bwriad cadeirydd y Pwyllgor Cyllid i drafod craffu ar y Gyllideb a sut mae'r broses yn gweithio gyda chadeiryddion y Pwyllgorau eraill sy'n craffu ar y Gyllideb ddrafft.

Argymhelliad 2. Wrth groesawu'r cynnydd a wnaed yn y wybodaeth a roddwyd gyda'r gyllideb amlinellol a'r gyllideb fanwl, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch y gallu i olrhain newidiadau penodol mewn portffolios.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod y camau a gymerwyd gennym i ddarparu mwy o fanylion a gwybodaeth ategol yn ystod dau gam y Gyllideb ddrafft.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Cyllid dros nifer o flynyddoedd i fireinio sut y cyflwynir gwybodaeth am y gyllideb a'i hansawdd, ac i gefnogi'r Cynulliad i graffu ar ein cynigion. Mae'r gwaith hwn ar y cyd wedi cydnabod cymhlethdod yr wybodaeth yr ydym yn ei chyflwyno ar wahanol gamau yng nghylch y gyllideb a'r amrywiaeth o ddibenion y defnyddir yr wybodaeth honno gan rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys darparu manylion ynglŷn â chyfrifoldebau cyllidol newydd y llywodraeth ar gyfer pwerau treth a benthyca, ac mae'n ystyried protocol y Gyllideb y cytunwyd arno y llynedd.

Fel rhan o'r protocol, cytunwyd i fynd y tu hwnt i lefel y manylion a ddarparwyd mewn cyllidebau blaenorol drwy gyhoeddi gwybodaeth am y gyllideb ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL). Er mwyn sicrhau tryloywder, darparwyd manylion hefyd yn y tablau BEL a gyhoeddwyd fel rhan o'r Gyllideb ddrafft am newidiadau o gymharu â chynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer 2019-20. Darparodd Ysgrifenyddion a Gweinidogion y Cabinet hefyd wybodaeth ategol bellach i alluogi rhanddeiliaid i weld newidiadau i gynlluniau cyhoeddedig yn eu papurau tystiolaeth i'r Pwyllgorau.

Rydym wedi ymrwmo i gydweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill i ddatblygu a gwella'r dull o gyflwyno gwybodaeth mewn cyllidebau yn y dyfodol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i sicrhau bod y gwaith a wneir sy'n benodol i Gymru yn cael yr un flaenoriaeth â'u gwaith yng nghyd-destun y DU.

Ymateb: Derbyn

Mae perthynas waith dda eisoes wedi'i sefydlu gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mewn perthynas â dadansoddi a rhagweld. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi mynychu cyfarfodydd rhagolygon gyda'r ddau sefydliad dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi gweithio'n agos â hwy ar y rhagolygon ar gyfer y trethi datganoledig. Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i sicrhau bod sylfaen dystiolaeth gadarn a manwl i ategu'r dadansoddiad o drethiant ddatganoledig.

Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cynhyrchu dau ragolwg o refeniw treth datganoledig Cymru bob blwyddyn i'w cyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft a Cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru. Bydd y rhain yn ychwanegol at y rhagolygon y mae'n eu cynhyrchu ar gyfer ei gyhoeddiadau Rhagolygon Economaidd ac Ariannol. Bydd pob rhagolwg yn ystyried penderfyniadau polisi treth Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ddiweddar am alldro, yn ogystal â rhagolygon macro-economaidd diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd adroddiad llawn i gyd-fynd â'r rhagolygon yn egluro'r cyfansoddiad a'r tueddiadau yn yr amcangyfrifon refeniw treth a sut mae'r amcangyfrifon hynny wedi newid.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn bwriadu cynnal digwyddiadau ymgysylltu yng Nghymru yn yr haf bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn llwyr ymwybodol o ddatblygiadau economaidd a dadansoddol. Bydd y trefniadau hyn hefyd yn helpu i feithrin gallu dadansoddol cyllidol yng Nghymru.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell rhoi sylw i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a byddai'n croesawu'r cyfle i graffu ar y cytundeb.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r trefniadau newydd ar gyfer y flwyddyn

nesaf a thu hwnt, pan fydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn darparu rhagolygon refferniw annibynnol ar gyfer proses gyllidebol Llywodraeth Cymru.

Yn ychwanegol at y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bydd dogfen Cylch Gorchwyl hefyd, a fydd yn nodi'n fanylach rolau Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn y trefniadau newydd. Fel y cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn y ddadl ar y Gyllideb ddrafft ar 4 Rhagfyr, bydd yn bleser gennym roi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd i'r Pwyllgor. Mae Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi cytuno i adolygu'r trefniadau ar ôl y flwyddyn gyntaf.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y broses fflagio ar gyfer CTIC yn addas i'r diben ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses yn agos drwy gydol 2019-20.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i sicrhau'r gwaith adnabod trethdalwr sy'n cael ei wneud wrth baratoi ar gyfer gweithredu Cyfradd Treth Incwm Cymru (CTIC). Nid ymarfer unwaith ac am byth yw hwn, gan y bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn parhau i ddiweddarar cofnodion cwsmeriaid yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod trethdalwyr sy'n atebol i dalu CTIC yn cael eu hadnabod yn gywir. Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn defnyddio ystod o wybodaeth i wneud hyn, gan gynnwys diweddariadau cyflogres cyflogwyr ar gyfer cwsmeriaid TWE a chyswllt â threthdalwyr unigol ac asiantau treth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn dilyn gweithredu CTIC, ym mis Ebrill 2019, i lywio gwaith dadansoddi a rhagweld, i fonitro newidiadau yn y sylfaen dreth ac i helpu i sicrhau bod cofnodion cwsmeriaid Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi mor gywir a chyfoes â phosibl. Rheolir y gwaith hwn gan fwrdd prosiect ar y cyd sy'n cwrdd bob mis.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn trafod sut y gellir targedu unrhyw gyllid ychwanegol yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau iechyd tuag at atal ac y dylai hefyd drafod cadarnhau trefniadau partneriaeth ynghylch unrhyw gyllid o'r fath.

Ymateb: Derbyn

Un o bileri canolog y gwasanaeth iechyd bob amser fydd ei swyddogaeth guradurol. Rydym yn cydnabod bod angen cydbwysedd rhwng buddsoddi mewn gweithgareddau ataliol a chynnal buddsoddiad mewn triniaeth a gwasanaethau rheng flaen.

Rhaid blaenoriaethu cyllid ychwanegol mewn gwasanaethau iechyd yn y dyfodol yn y meysydd lle mae ei angen fwyaf. Mae'n anochel y bydd rhywfaint o hyn ym meysydd gwasanaethau aciwt. Fodd bynnag, ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ar ein blaenoriaethau fydd sut y gellir cyflawni buddsoddiad ychwanegol wedi'i dargedu tuag at atal. Bydd dulliau cydweithredol o bennu dyraniadau gwariant yn

parhau i chwarae rhan bwysig wrth sicrhau canlyniadau cyfannol yn sgil gwariant ataliol.

Yn y Gyllideb ar gyfer 2019-20 mae £192 miliwn yn cael ei ddyrannu'n benodol er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu *Cymru Iachach*, ein cynllun i greu system iechyd a gofal cymdeithasol integredig ddi-dor. O'r swm hwn, bydd £60 miliwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygu cynlluniau tymor canolig integredig cryfach ar gyfer y GIG. Dylai'r GIG ddefnyddio'r buddsoddiad hwn, er ei fod yn gyllid yn ôl disgrisiwn yn bennaf, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu yn *Cymru Iachach*, megis ffocws cynyddol ar atal drwy gyfleusterau iechyd lleol.

Darperir ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac maent yn dwyn ynghyd fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid eraill yn unol ag ôl troed y bwrdd iechyd. Mae *Cymru Iachach* yn nodi'n glir y dylai'r byrddau hyn arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig a chydweithredol effeithiol. Dylai byrddau rhanbarthol wneud y defnydd gorau o adnoddau ac mae'n ofynnol iddynt hyrwyddo cronfeydd cyfunol ac ystyried eu sefydlu pan fyddant yn gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth. Nod cronfeydd cyfunol yw cefnogi comisiynu gwasanaethau integredig a chael gwell gwerth am arian.

Mae byrddau rhanbarthol yn goruchwyllo'r Gronfa Gofal Integredig ac yn sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio a'i chyflenwi'n effeithiol i ddatblygu a phrofi modelau darparu gwasanaeth integredig newydd, gan ganolbwyntio ar atal. Mae £50 miliwn o arian refeniw'r Gronfa Gofal Integredig wedi cael ei ryddhau i fyrddau rhanbarthol eleni. Mae cyllideb ddrafft 2019-20 eto yn darparu £50 miliwn mewn cyllid refeniw yn ogystal â refeniw ychwanegol o £30 miliwn ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol y mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y dylid eu cyflwyno drwy'r Gronfa Gofal Integredig.

Yn ogystal, mae £30 miliwn yn cael ei wario i fynd i'r afael â phwysau mewn gofal cymdeithasol, er mwyn atal pobl rhag colli eu hannibyniaeth cyhyd â phosibl, drwy gefnogi gwasanaethau gofal cartref, er enghraifft. Rydym hefyd yn buddsoddi £10 miliwn o'r cyllid hwn mewn cynlluniau ataliol, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a £15 miliwn ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu, gan gynnwys ein dull "ysgol gyfan" o ddarparu cymorth emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r adolygiad o wariant sydd ar ddod fel cyfle i werthuso ei phrosesau a'i dogfennau ar gyfer y gyllideb yn llawn, gan sicrhau bod cyllidebau'n darparu golwg tymor hir ar gyllid yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Fel mater o drefn, byddwn yn myfyrio ar broses a dogfennaeth y gyllideb eleni i ymchwilio i ffyrdd o wneud gwelliannau yn y dyfodol. Fel y cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, yn amodol ar wybod beth yw canlyniad Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU eleni, Cyllideb 2020-21 fydd y

gyllideb gyntaf mewn cylch newydd a bydd hyn yn rhoi'r cyfle i ymdrin â'r asesiad integredig mewn ffordd wahanol.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i wybod sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio traciwr siwrnai i gyflymu'r broses o weithredu ac integreiddio amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn argymhell bod ei defnydd yn cael ei adlewyrchu yng nghyllideb ddrafft 2020- 21.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn datblygu'r traciwr siwrnai ac rydym yn bwriadu cydweithio'n agos â swyddfa'r Comisiynydd i ystyried sut y gall y traciwr siwrnai gefnogi'r broses gyllidebol y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi cydnabod o'r blaen bod ymgorffori egwyddorion ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein gwaith cynllunio'r gyllideb yn broses esblygol a gobeithio y bydd yr offeryn hwn yn ein helpu i fonitro ein cynnydd ar y daith hon.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos sut y mae'n ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn penderfyniadau drwy gydol ei sefydliad, gan ymgysylltu mor llawn â phosibl â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen yn Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Gan gydnabod bod ymgorffori'r Ddeddf yn broses esblygol, mae'n dilyn na fydd y newid diwylliannol sy'n ofynnol yn digwydd dros nos.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mewn sawl maes polisi. Mae'r cydweithrediad hwn wedi profi'n werthfawr iawn a bydd yn parhau wrth inni anelu at wneud cynnydd pellach ar draws Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi cymryd camau cadarnhaol ymlaen fel rhan o broses y gyllideb eleni. Rydym wedi bod yn glir ynghylch sut y gwnaed penderfyniadau yng nghyd-destun ein strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, a thrwy fframwaith y Ddeddf. Rydym hefyd wedi datblygu ein naratif o ran penderfyniadau cyllidebol yn y broses eleni i ddangos yn well sut mae ein gweithgareddau'n cyfrannu at ein 12 nod llesiant.

Bydd mabwysiadu dull integredig o asesu effaith yn cynorthwyo i ymgorffori'r Ddeddf wrth lunio polisiâu a gwneud penderfyniadau. Mae'r cynnydd a wnaed eleni drwy ddefnyddio'r offeryn Asesu Effaith Integredig yn sylfaen bwysig y bwriadwn adeiladu arni.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod cyllidebau drafft yn y dyfodol yn rhoi rhagor o fanylion am y dyraniadau i geisio trechu tloidi ac anghydraddoldeb. Wrth gydnabod y gallai rhai o'r mentrau hyn gynnwys symiau cymharol fach o arian, mae'n fuddiol nodi bod y dyraniadau hyn yn trechu tloidi ac anghydraddoldeb.

Ymateb: Derbyn

Mae rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru, *Symud Cymru Ymlaen*, a'r strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, yn nodi blaenoriaethau'r llywodraeth i gyflawni ein nod hirdymor i greu Cymru sy'n ffyniannus a diogel; iach a gweithgar; uchelgeisiol a dysgu ac unedig a chysylltiedig.

Drwy gydol proses y gyllideb, rydym yn ymdrechu i sicrhau bod ein buddsoddiadau'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi er mwyn sicrhau economi ffyniannus a chefnogi cymunedau amrywiol, lle mae cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo a lle y darperir amddiffyniad i'r bobl fwyaf difreintiedig. Rydym hefyd wedi anelu at fod yn glir yn naratif y gyllideb ac asesiadau o effaith ynghylch sut mae ein buddsoddiadau wedi'u targedu tuag at ein hamcanion strategol. Yn ein Cyllideb ar gyfer 2019-20, er enghraifft, rydym wedi neilltuo pecyn cymorth £14.5 miliwn i drechu tlodi plant, sy'n cynnwys buddsoddiad ychwanegol i ehangu'r Gronfa Cymorth Dewisol yn 2019-20, cronfa sydd wedi'i hanelu at gefnogi'r dinasyddion â'r angen mwyaf.

Rydym yn cydnabod, o gofio natur drawsbynciol ein buddsoddiadau a natur amlhaen ein hamcanion ar draws gwahanol raglenni, efallai y bydd yn anoddach nodi themâu unigol ond byddwn yn ymdrechu i ddarparu eglurder pellach yn ein cyllidebau ac asesiadau effaith yn y dyfodol.

Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â chyllidebau drafft yn y dyfodol ddangos yn glir sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn trafod y dull Asesiad Effaith Gronnol a argymhellir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi canolbwyntio ar sut y gallwn gymryd camau pellach i ymgorffori egwyddorion y Ddeddf a'r pum ffordd o weithio drwy broses gyfan y Gyllideb. Mae'r Ddeddf yn chwarae rhan hanfodol wrth arwain y broses gyllidebol er mwyn sicrhau, fel llywodraeth, ein bod yn meddwl am yr hirdymor; yn gweithio gyda phobl a chymunedau; yn mabwysiadu dull gweithredu ataliol i geisio atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf a dull mwy cydgysylltiedig, trawslywodraethol a sector cyhoeddus o fynd i'r afael â materion.

Fe wnaethom lansio peilot o'r offeryn asesu effaith integredig newydd ym mis Gorffennaf 2018, sy'n ystyried yr ystod lawn o asesiadau effaith a'r fframwaith a ddarperir gan y Ddeddf. Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ei bod yn gweld y Ddeddf yn darparu fframwaith troswaol ar gyfer asesiadau effaith strategol.

Rydym yn cydnabod bod dull integredig o asesu effaith yn hanfodol o ran cyflawni gofynion y Ddeddf a gweithio tuag at ein nodau llesiant yng Nghymru. Bydd yr offeryn hwn yn cael ei adolygu a'i fireinio ac yn cefnogi ein hymdrechion i ddangos sut mae'r Ddeddf wedi cael ei hystyried drwy gydol y broses.

At hynny, mae defnyddio dull integredig hefyd yn helpu i ddarparu golwg gronnus ac yn ein galluogi i ddeall effaith gyffredinol penderfyniadau ar wahanol grwpiau o bobl yn well.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai asesiadau effaith yn y dyfodol nodi'n glir effeithiau negyddol penderfyniadau ac opsiynau gwahanol y gallent fod wedi'u trafod wrth ddod i benderfyniadau gwariant, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr agweddau cadarnhaol.

Ymateb: Derbyn

Mae'n bwysig bod asesiadau effaith yn cynnwys effeithiau negyddol a chadarnhaol y penderfyniadau a wneir gan y llywodraeth. Dylai hyn hefyd helpu i nodi camau i liniaru effeithiau negyddol ac ymchwilio i gyfleoedd i hyrwyddo dull mwy cadarnhaol, sy'n esbonio natur gadarnhaol y naratif. Mae hwn yn faes yr ydym yn bwriadu adeiladu arno yn y dyfodol a dangos ymhellach yr ystyriaethau a archwiliwyd a'r newidiadau a wnaed yn dilyn asesiad llawn o effaith penderfyniadau gwario.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad ei hadolygiad o'r fframwaith newydd ar gyfer asesiadau effaith integredig.

Ymateb: Derbyn

Lansiwyd yr offeryn asesu effaith integredig, fel peilot, ym mis Gorffennaf 2018, ac roedd ymrwymiad yr adeg honno i gynnal adolygiad yn y Flwyddyn Newydd. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n diffinio'r paramedrau ar gyfer yr adolygiad hwnnw ac rydym yn disgwyl ystyried y cynnydd a gyflawnwyd a'r gwelliannau y gellir eu gwneud yn y dyfodol. Byddwn yn ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n ymwneud â datblygiad cychwynnol yr offeryn ac yna adrodd ar gynnydd.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r diffiniad o wariant ataliol yn fanwl ac yn gyson, gan gynnwys mynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r Pwyllgor hwn.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod mai'r diffiniad o wariant ataliol yw dechrau'r daith a'r sylfaen inni adeiladu arni ar y cyd yn y dyfodol. Rydym yn ddiolchgar am gyfraniad rhanddeiliaid tuag at y diffiniad, sydd wedi bod o gymorth yn y cylch cyllideb hwn. Edrychwn ymlaen at ei fireinio ymhellach mewn trafodaeth gyda Phwyllgorau ac eraill er mwyn llywio ystyriaethau'r gyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu dull integredig ar draws y Llywodraeth mewn perthynas â gwariant ataliol, yn drawsadrannol ac yn aml-flwyddyn.

Ymateb: Derbyn

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'i phum ffordd o weithio yw'r sylfaen sy'n arwain ein holl weithgareddau, gan gynnwys y broses gyllidebol. Rydym wedi dweud bod gweithredu'r Ddeddf yn broses ailadroddus ac rydym wedi cymryd camau pellach yn y gyllideb eleni mewn perthynas â gwariant ataliol a datblygu dull mwy integredig o wneud penderfyniadau gwario ar draws y Llywodraeth. Mae ein proses gyllidebu eleni wedi cael ei llywio gan *Ffyniant i Bawb*, ein strategaeth genedlaethol, a'n chwe maes blaenoriaeth trawsbynciol.

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y materion ynghylch tryloywder mewn perthynas â nodi buddsoddiad sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn nhablau'r gyllideb, gyda'r bwriad o sicrhau bod eglurder yn cael ei roi yng nghyllideb 2020-21.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi bod yn agored ynghylch y ffaith mai proses bontio yw hon. Er bod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi newydd yn llywio ein gweithgareddau yn y dyfodol, mae'n anochel y bydd yn rhaid inni barhau i reoli ymrwymadau etifeddol. Mae hyn yn bwysig o ran cynnal parhad busnes ac wrth reoli proses bontio ddiraffferth rhwng y dull blaenorol a'r dull newydd.

Mae Cyllideb 2019-20 yn cynnwys swm sylweddol o wariant etifeddol a broffiliwyd dros nifer o flynyddoedd, a gytunwyd cyn i'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ddod i fodolaeth. Mae'r dull o gyflwyno'r Gyllideb yn adlewyrchu'r cyfnod pontio, ond wrth i ymrwymadau etifeddol leihau ac ymrwymadau newydd o dan y Cynllun Gweithredu ar yr Economi gynyddu, gallwn ddisgwyl newidiadau pellach yn y dull o gyflwyno'r gyllideb yn y blynyddoedd i ddod.

Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y caiff targedau eu cyhoeddi mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac y cyflwynir adroddiad ar gynnydd dilynol yn erbyn y targedau hyn er mwyn gallu mesur perfformiad polisi yn well.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn glir bod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn agenda hirdymor ar gyfer newid, nid yn unig o ran polisi, ond hefyd o ran diwylliannau sy'n cynnwys newid i ymddygiad busnes mwy cyfrifol. Yn unol â *Ffyniant i Bawb*, byddwn yn defnyddio'r dangosyddion llesiant cenedlaethol i olrhain cynnydd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar lefel uchel. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd er mwyn llywio ymhellach ein dull o fesur perfformiad. Bydd hyn yn cynnwys ystyried arferion gorau rhyngwladol a meincnodau ar gyfer mesur twf cynhwysol, yn unol â'n dangosyddion llesiant. Bydd diweddiadau pellach yn cael eu darparu wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach sut y mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol ledled Cymru yn cael ei flaenoriaethu wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â buddsoddi mewn seilwaith.

Ymateb: Derbyn

Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, a lanswyd yn 2012, yn parhau i lywio ein penderfyniadau buddsoddi cyfalaf a chadarnhaodd yr Adolygiad Canol Cyfnod a gyhoeddwyd ym mis Mai ein bod yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth inni alinio'r Cynllun Buddsoddi â *Ffyniant i Bawb*. Un o'n prif amcanion yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol drwy dargedu ymyriadau i anghenion economaidd pob rhanbarth o Gymru, gan sicrhau bod pob rhan o'r wlad yn elwa o dwf.

O fewn y cyd-destun hwn, sefydlwyd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i asesu anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol pob rhan o Gymru dros gyfnod o 5 i 30 mlynedd a bydd yn rhoi prosesau priodol ar waith i gynrychioli rhanbarthau a chymunedau Cymru.

Bydd y Comisiwn Seilwaith, ynghyd â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, yn darparu darlun strategol o'n hanghenion a'n cyfleoedd seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol i'n helpu i wneud penderfyniadau drwy'r Cynllun Buddsoddi i sicrhau bod ein buddsoddiadau wedi'u halinio a'u bod wedi'u targedu tuag at y meysydd lle y gallant sicrhau gwerth am arian a'r effaith fwyaf.

Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r angen i'r gyllideb fod yn hyblyg o ran paratoi ar gyfer Brexit, ond mae'n argymhell bod y gyllideb atodol gyntaf yn 2019-20 yn darparu, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, grynodedd manwl o sut y mae cytundeb terfynol Brexit wedi llywio cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Ymateb: Derbyn

Er ein bod ni, a'r Cynulliad ehangach, yn credu bod y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol arfaethedig yn annigonol ac yn anaddas i Gymru, rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau cytundeb gyda'r UE sy'n cynnwys cyfnod pontio. Byddai cyfnod pontio yn golygu na fyddai llawer o newid sylweddol hyd at 2021, gan roi sefydlogrwydd ac amser inni gynllunio.

Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd parhaus o ran y Cytundeb Ymadael a'n perthynas â'r UE yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cadw hyblygrwydd yn ei hymateb i'r amrywiol heriau a ddaw yn sgil Brexit. Mae Cronfa Bontio'r UE yn darparu'r hyblygrwydd hwn drwy ymateb i brosiectau parodrwydd ar gyfer Brexit a nodwyd gan randdeiliaid a'u cefnogi. Gellir cyflwyno cynigion ar gyfer ariannu prosiectau o'r fath i ni ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. O'r herwydd, byddai'n anodd tynnu sylw at ble bydd yr arian sy'n weddill yn cael ei wario ymlaen llaw. Fodd bynnag, byddem yn hapus i ddarparu crynodeb lefel uchel o'r prosiectau a gymeradwywyd a'u dyraniadau o Gronfa Bontio'r UE ar gyfer 2019-20 yng nghyllideb atodol gyntaf 2019-20.

Mae consensws cyffredinol ar effeithiau negyddol mawr a hirdymor Brexit 'dim bargaen', ac mae dadansoddiad Llywodraeth y DU o effaith hirdymor, 15 mlynedd, Brexit dim bargaen yn awgrymu gostyngiad o 9% yng nghynnyrch domestig gros

Cymru. Byddai effaith uniongyrchol 'dim bargaen' yn hynod gythryblus ac yn creu pwysau ariannol dybryd a fyddai'n anodd iawn eu rhagfynegi. Mae'n bwysig nodi, er y bydd disgwyl i Lywodraeth Cymru weithredu a bod yn barod i weithredu pe bai 'dim bargaen', rydym yn glir na allwn, ac na ddylem, geisio lliniaru canlyniadau 'dim bargaen' ar ein pen ein hunain. Nid ydym yn derbyn pe bai 'dim bargaen', pan fydd busnesau Cymru yn mynd i drafferthion ariannol (e.e. oherwydd na all eu cynhyrchion gyrraedd y farchnad), mai Llywodraeth Cymru ddylai ysgwyddo'r effaith ariannol.

Nid yw Trysorlys Ei Mawrhydi wedi rhannu ei gynlluniau gyda ni ar gyfer ymateb cyllidol be bai 'dim bargaen' a'r heriau sylweddol iawn a fydd yn codi. Fodd bynnag, rydym yn rhagdybio na fydd y trefniadau cyllid cyhoeddus presennol yn berthnasol mwyach a byddwn yn symud i senario cwbl newydd gyda mesurau cyllido 'brys'. Seiliwyd y dybiaeth hon, yn rhannol, ar sylwadau'r Canghellor mewn cyfweiliad â Sky News cyn Cyllideb yr Hydref ym mis Hydref 2018 a ddywedodd y byddai senario dim bargaen yn golygu bod angen cyllideb newydd a strategaeth wahanol ar gyfer y dyfodol.